

---

## Dysgu a gwneud Geometreg – ME321

---

*Patrwm cyflwyno: O fis Hydref i fis Mehefin*

### **Disgrifiad o'r cymhwyster**

#### **Disgrifiad o'r modiwl**

Mae'r modiwl hwn ar gyfer unrhyw fyfyrwr sydd â diddordeb ym maes addysg mathemateg a'r ffordd y mae pobl yn dysgu ac yn meddwl am siâp, gofod a geometreg. Bydd myfyrwyr yn meithrin gwybodaeth broffesiynol ddofn sy'n cefnogi'r broses o symud ymlaen i addysg gychwynnol i athrawon, tiwtora, neu addysg yn y cartref, yn ogystal â'u mathemateg eu hunain. Bydd myfyrwyr yn gweithio ar dasgau geometreg sy'n hygyrch i ddysgwyr oedran ysgol ond sy'n arwain at syniadau mathemategol sylfaenol. Ar ôl astudio damcaniaeth addysgegol ynghylch y ffordd y mae pobl yn meddwl ac yn rhesymu ym maes geometreg, bydd myfyrwyr yn gweithio gyda dysgwr (o unrhyw oedran) i nodi datblygiad o ran syniadau geometreg. Bydd myfyrwyr yn archwilio'r cwricwlwm geometreg mewn lleoliadau gwahanol. Bydd myfyrwyr yn meithrin sgiliau gan gynnwys addasu tasgau, cyfleu rhesymeg geometrig yn effeithiol i eraill a defnyddio amrywiaeth o dechnolegau digidol at ddibenion astudio ac addysgu. Nid oes unrhyw esboniad ffurfiol: mae'r asesiad yn seiliedig ar dri asesiad sydd wedi'u marcio gan diwtoriaid ac asesiad diwedd modiwl.

#### **Manyleb y person**

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â'r [fanyleb person gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- profiad o ysgolion a/neu golegau'r DU
- gwybodaeth am waith ymchwil ym maes addysg mathemateg
- profiad o ddefnyddio TGCh ym maes addysg mathemateg, gan gynnwys meddalwedd geometreg ddynamig
- profiad o helpu oedolion i fyfyrion ar addysgu mathemateg ac ysgrifennu am hynny

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- profiad o gynnal hyfforddiant ar gyfer athrawon mathemateg
- gradd uwch mewn addysg mathemateg
- profiad o gynllunio tasgau mathemateg sy'n addas ar gyfer dysgwyr ysgol uwchradd
- profiad o addysgu'n rhyngweithiol drwy ddefnyddio cyfleusterau cyfarfodydd byw ar-lein

*Gwybodaeth ychwanegol*

Mae myfyrwyr ar y modiwl hwn yn cael tiwtorialau ar-lein ac yn cyflwyno eu haseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid yn electronig. Bydd yn ofynnol i chi gynllunio ac arwain tiwtorialau ar-lein drwy ddefnyddio systemau'r Brifysgol Agored, sef Adobe Connect ar hyn bryd. Bydd hefyd yn ofynnol i chi farcio a rhoi adborth manwl ar yr aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid a gyflwynwyd yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, ar y ffurf ragnodedig, i'r system eTMA. Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael os cewch eich penodi i'r rôl.

*Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	WI
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	4
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3.5

*Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei chymeradwyo eto, ac felly, mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.*